# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 20 Mai 2019

Amser: 13.26 - 15.15

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5454

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Vikki Howells AC<br>Darren Millar AC |
| Tystion: | Andrew Slade, Llywodraeth Cymru<br>Sheena Hague, Llywodraeth Cymru<br>Simon Jones, Llywodraeth Cymru |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Adrian Crompton - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Matthew Mortlock |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Elin Sutton (Dirprwy Glerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mohammad Asghar AC a dirprwyodd Darren Millar AC ar ei ran. Cafwyd ymddiheuriadau hefyd gan Rhianon Passmore AC, Adam Price AC a Jenny Rathbone AC.

1.3 Nododd y Cadeirydd nad yw Neil Hamilton AC bellach yn aelod o'r Pwyllgor a diolchodd iddo am ei gyfraniad i waith y Pwyllgor.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Nodwyd y papurau.

**2.1 Gwariant ar staff asiantaeth gan GIG Cymru: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (25 Ebrill 2019)**

**2.2 Rheoli apwyntiadau dilynol cleifion allanol ar draws Cymru: Llythyr gan Goleg Brenhinol y Meddygon a chan y BMA**

## 3 Cynllun Llywodraeth Cymru i gynnig tocynnau bws rhatach i bobl ifanc – FyNgherdynTeithio: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru

3.1 Cafodd yr aelodau dystiolaeth gan Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol, gan Simon Jones, Cyfarwyddwr, Seilwaith Economaidd, a chan Sheena Hague, Dirprwy Gyfarwyddwr, Rheoli'r Rhwydwaith, Llywodraeth Cymru fel rhan o'r ymchwiliad i FyNgherdyn Teithio, sef cynllun tocynnau bws rhatach i bobl ifanc Llywodraeth Cymru.

3.2 Cytunodd Andrew Slade i anfon rhagor o wybodaeth ynglŷn â nifer o gamau gweithredu.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Cynllun Llywodraeth Cymru i gynnig tocynnau bws rhatach i bobl ifanc – FyNgherdynTeithio: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

5.1 Bu'r Aelodau yn trafod y dystiolaeth a ddaeth i law a chytunwyd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru gyda'u canfyddiadau.